SUL CYFFREDIN 15

**1 BRENHINOEDD 2:10-12; 3:3-14; SALM 111;
EFFESIAID 5:15-20; IOAN 6:51-58**

● **Gweddi agoriadol**
Rydym yma i gyflwyno
ein hoffrwm moliant
i'r hwn a'n gwnaeth,
yr un sy'n ein galw.

Rydym yma i gyflwyno
ein hoffrwm gweddi
i'r un sy'n ein caru,
yr un sy'n ein clywed.

Rydym yma i gyflwyno
offrwm ein bywydau
i'r un sy'n ein harbed,
yn ein dwyn i'r lle hwn.

● **Moliant**
Deuwn â'n moliant i ti
heddiw a phob dydd,
mewn llefydd cysegredig
a llefydd gwaith,
yn y caneuon a ganwn
a sibrydion ein calonnau.

Achos rwyt yn rasol
a thrugarog,
araf i ddigio,
gorlifo mewn cariad.
Bendithiaist ni drwy ein bywyd
a deuwn â'n moliant atat
heddiw a phob dydd.

● **Cyffes**
Pan fydd ein calonnau ynghlwm
wrth bethau daearol
a'n meddyliau yn cael eu tynnu
oddi wrth y tragwyddol,
atgoffa ni o Solomon,
yr un, pan ofynwyd beth a ddymunai,
na ddewisodd olud bydol
na lle anrhydedd,
ond doethineb
i wahaniaethu rhwng da a drwg.

Maddau i ni, Arglwydd,
pan gamddefnyddiwn y rhyddid
a roddaist i ni,
gan gymysgu rhwng doethineb y byd
a gwirionedd dy un di.
Caniata i ni yr amgyffred
i wybod y gwahaniaeth
ac ymddiried ynot ti yn unig.

● Diolch

Pan fo'r daith yn hir
a ninnau yn newynu a sychedu,
Fara'r bywyd, rwyt yn ein cynnal.

Pan fo'r ffordd yn galed
A'n corff yn wan,
Fara'r bywyd, rwyt yn ein hiacháu.

Pan fo'n hysbryd yn isel
a ninnau'n diffygio,
Fara'r bywyd, rwyt yn ein hadnewyddu.

Pan gyflwynwn ein dwylo
mewn gwasanaeth a chariad,
Fara'r bywyd, fe'n bendithi.

Pan fo'r her yn fawr
a'r gweithwyr yn brin,
Fara'r bywyd, rwyt yn ein nerthu.

Pan enillir y fuddugoliaeth
a ninnau yn gweld dy wyneb,
Fara'r bywyd, byddi yn gorfoleddu gyda ni.

Diolch am ein bwydo
mewn cymaint o ffyrdd.